

CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S WEEKLY NEWSLETTER.

WYTHNOS YN DIWEDDU / WEEK ENDING: 04.12.20



Mae'n anodd credu ei bod yn fis Rhagfyr yn barod, a'r flwyddyn yma wedi bod yn dra gwahanol i'r arfer. Er gwaethaf hynny, mae hi wedi hedfan heibio!!

It's difficult to believe that it's already December, and this year has without a doubt, been quite different. Despite that, it has just flown by!!

GWAITH ADEILADU – BUILDING WORK.

Fel y gwelwch erbyn hyn, mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo yn arbennig o dda, a'r maes parcio newydd bron iawn â'i gwblhau. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel man gweithio yr adeiladwyr.


Diolch o galon i chi am eich cyd weithrediad yn ystod y cyfnod anodd hwn. Rydych wedi derbyn gwybodaeth yn gynharach y pawns 'ma am y newid sydd i gymryd lle yn ein trefniadau ar ddechrau a diwedd y dydd o ddydd Llun, Rhagfyr 7fed. ymlaen. Gwn y gallwn ddibynnu arnoch am eich cydweithrediad ac ymddiheurwn ein bod yn gorfod addasu ein trefniadau fel mae pethau'n datblygu, gan gadw mewn cof y cyfyngiadau sydd arnom yn sgîl y pandemig. Gwerthfawrogwn eich cymorth yn fawr iawn.

As you can see by now, the building work is coming along very well, and the new car park is almost finished. This will be used as the builders' compound whilst the work takes place.

Very many thanks to you for your co-operation during this difficult time. You have already received information earlier this afternoon regarding the changes in our arrangements at the beginning and end of the day as from Monday, December 7th. I know that we can depend on your co-operation and we apologise for having to adjust our arrangements as situations develop, whilst keeping in mind the restrictions upon us as regards to the pandemic. Your assistance is greatly appreciated.

SALWCH - ILLNESS

Fe'ch hatgoffir yn garedig na ddylai disgyblion ddychwelyd i'r ysgol am 48 awr ar unrhyw achlysur y maent wedi bod yn taflu i fyny, rhag lledaenu'r haint i eraill yn yr ysgol. Mae hyn yn dilyn canllawiau osodir gan y Bwrdd Iechyd.



You are kindly reminded that pupils who have been vomiting, are not to return to school for 48 hours, so as not to spread the sickness to others in school. This is in accordance with guidelines given by the Health Board.

GWEITHDY CELTAIDD – CELTIC WORKSHOP

Fel rhan o waith thema y dosbarthiadau hynny ar Y Celtaid, bu disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn cymryd rhan mewn gweithdy rhithiol gan Amgueddfa Werin Sain Ffagan yn seiliedig ar y thema honno fore Mercher. Bu i'r disgyblion hyn fwynhau'r profiad ac elwa'n fawr ohono.

As part of their class thematic work on the Celts, Years 3 and 4 pupils participated in a virtual workshop in association with the St Fagan Museum on Wednesday morning. These pupils very much enjoyed the experience and gained a great deal from participating in it.

NADOLIG 2020 CHRISTMAS.

Mi fyddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod holl ddisgyblion yr ysgol yn cael cyfranogi mewn amrywiaeth o weithgareddau Nadoligaidd yn ddiogel o fewn eu Swigen/Dosbarth unigol yn ystod y pythefnos nesaf.

Ers nifer o flynyddoedd bellach, nid yw'r ysgol yn annog disgyblion i gyfnewid cardiau Nadolig, a hynny am resymau amgylcheddol. Ar ôl cadarnhau eto gyda'r arbenigwyr Iechyd a Diogelwch, fe'n cynghorir yn gryf i beidio caniatáu i ddisgyblion ddod â chardiau efo nhw o adref i'w rhannu ag eraill gan y byddai gofyn eu rhoi mewn cwarantîn am 72 awr cyn i un person, ac un person yn unig, eu dosbarthu i'r disgyblion.

Gofynnir yn garedig am gyd weithrediad pawb yn hyn o beth am eleni os gwelwch yn dda, er mwyn osgoi unrhyw risg i iechyd holl aelodau cymuned yr ysgol, o gofio bod cyfradd ymledu COVID mor uchel yng Nghymru ar hyn o bryd.

We will endeavour to do everything within our ability to ensure that all of the school's pupils will be able to contribute safely in a variety of Christmas activities within their individual Bubble/Class during the next two weeks.

Over a number of years now, school has discouraged pupils from exchanging Christmas cards, for environmental reasons. After confirming again with the Health and Safety officers, we have been strongly advised not to allow children to bring items such as Christmas cards with them to school, to share with others, as they would need to be quarantined for 72 hours before one person, and one person only, could distribute them to the children.

We kindly ask for everyone's co-operation in this matter this year please in order to decrease the health risks for every member of the school's community, bearing in mind that the COVID infection rate is high in Wales at present.

CINIO NADOLIG – CHRISTMAS DINNER.

Bydd staff y gegin yn gweini cinio Nadolig i bawb **ddydd Mercher nesaf, Rhagfyr 9fed.** Os y dymunai eich plentyn gael un am £2.25 yr un, rhaid talu trwy schoolgateway ymlaen llaw os gwelwch yn dda. Bydd pawb yn bwyta yn y dosbarthiadau gan na ellir defnyddio'r neuadd ar hyn o bryd.

*The kitchen staff will serve a Christmas lunch for everyone who wishes to have one for £2.25 each **next Wednesday, December 9th.** The dinners will have to be paid for beforehand on schoolgateway please. Everyone will eat the lunch in the classrooms as the hall is out of use for mass gatherings at the moment.*

DIWRNOD SIWMPERI NADOLIG – CHRISTMAS JUMPER DAY.

Caiff yr holl ddisgyblion ddod i'r ysgol yn gwisgo siwmpwr Nadolig **ddydd Gwener nesaf, Rhagfyr 11eg.** a chyfrannu £1 am gael gwneud hynny tuag at Gronfa Achub y Plant.

*All the pupils can come to school dressed in their Christmas jumpers **next Friday, December 11th.** and contribute £1 towards Save the Children for doing so.*

DIGWYDDIADAU'R DYFODOL – FUTURE EVENTS.

- 09.12.20** Cinio Nadolig i bawb sy'n dymuno cael un – *Christmas dinner for those who wish to have one.*
- 09.12.20** Sioe Nadolig rithiol gan Anni Llŷn a Tudur Phillips i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 – *A virtual Christmas show for Key Stage 2 pupils by Anni Llŷn and Tudur Phillips.*
- 11.12.20** Diwrnod Siwmpwr Nadolig tuag at Gronfa Achub y Plant – *Christmas Jumper Day towards Save the Children.*
- 18.12.20** Ysgol yn cau am wyliau'r Nadolig – *School closes for the Christmas holiday.*
- 04.01.21** Diwrnod hyfforddiant mewn swydd i'r staff – dim ysgol i'r disgyblion – *In service training day for the staff – no school for the pupils.*
- 05.01.21** Ysgol yn ail agor i'r disgyblion – *School re-opens for the pupils.*

